

Rhifyn 37

Gardd Lysiau Ysgol Gynradd Y Felinheli gan ddisgyblion yr ysgol.

Mae disgyblion Ysgol San Siôr gyda'u ieir sydd yn cynhyrchu digon o wyau i'r gegin. Mae gan ysgol y Felinheli ardd fywyd gwyllt a gardd lysiau.

Sgwn i beth sydd ganddoch chi yn eich ysgol? Beth am ddweud wrthym fel mae'r disgyblion yma yn ei wneud yn son am eu profiadau o greu'r ardd.



Roedd gwneud gardd lysiau a gardd wyllt ym Mlwyddyn 6 yn llawer o hwyl. Roedd yna glwb garddio ar ôl ysgol ac roeddwn yn mynd i hwnnw. Roeddem yn cael plannu blodau a chwynu a lluchio'r chwyn i mewn i dwmpath i greu compost. Mae'r pentwr yma wedi lleihau erbyn hyn wrth iddo bydru a throi'n gompost i'w ddefnyddio yn yr ardd y flwyddyn nesaf. Roedd yr ardd lysiau wedi ei godi oddi ar y ddaear i wneud y gwaith yn haws. Roedd yr athrawon wedi prynu had ac roedd cyfle i ni ddod a phlanhigion i'r ysgol hefyd. Mi ddes i a thomatos i'w plannu.

Blychau tyfu llysiau

Planwyd ffa a moron a letus hefyd. Roedd un letysen yn anferth a gwerthom ni hi am £1.00 yn ffres neis. *Owain H. Hughes*



Darn o gae oedd yr ardd lysiau yn y lle cyntaf cyn iddo gael ei drin. Roedd angen cryn waith i baratoi a bu dipyn o luchio pryfed genwair (mwydod) ar ein gilydd hefyd. Pan oedd y tir yn barod planwyd moron, ffa, letus, tatws a thomato. Defnyddwyd ffyn lolipop fel marcwyr fel y gallwn gofio beth oedd wedi ei blannu yn lle.

Trawsblannu letus

Roedd angen dyfrio'r ardd bob amser egwyl pan oedd hi yn sych ac roedd pawb yn poeni ychydig beth fyddai yn digwydd dros yr haf gan y byddwn ar ein gwyliau. Ond cafwd haf gwlyb iawn felly toedd dim angen i ni boeni. Cafodd y tatws a'r moron eu gwerthu wrth giat yr ysgol. Roedden nhw ychydig yn fach ond yn flasus tu hwnt. *Ynyr Harris*



Yn y clwb garddio ar ôl ysgol yn Ysgol Felinheli roeddem yn cael plannu llawer o berlysiâu blodeuog fel mint a rhosmari. Roedd gan y perlysiâu arogl neis. Roeddem hefyd wedi plannu llawer o flodau i ddenu pryfaid i'r ardd. Roeddem hefyd yn plannu moron, tatws, letys a ffa. Roedd yn braf gweld yr holl lysiau yn datblygu yn dda.

Dyfrio'r Letus

Roedd yr holl lysiau yn cael eu bwyta wedyn amser egwyl, neu amser cinio gan ddisgyblion a staff yr ysgol. Roedd rhaid chwynnu yn aml yn enwedig yn yr ardd wyllt ond doedd hyn ddim yn broblem gan fod pawb yn heplu eu gilydd.

Ellis Derbyshire



Moron a Ffa - cynnyrch ein holl waith caled - blasus ty hwnt.

Hoffai Gwaith Maes ddiolch i athrawon ysgol Gynradd y Felinheli am gael defnyddio y lluniau a storïau'r disgyblion. Cofiwch os oes gennych chi stori i'w rhannu, cysylltwch a'r golygydd.